# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## EOC(3)-08-08: 4 Mehefin 2008

**Darparu Gwasanaethau ar gyfer Pobl Ifanc Anabl - Adroddiad Cynnydd Llywodraeth Cynulliad Cymru**

**DATGANIAD YSGRIFENEDIG LLYWODRAETH Y CYNULLIAD**

**Teitl:Adroddiad cynnydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch diwallu argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal am Wasanaethau a Ddarperir i Bobl Ifanc Anabl (Ionawr 2007).**

**Dyddiad:22 Mai 2008**

### Gan:Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Ym mis Tachwedd 2007 roeddwn wedi adrodd am y cynnydd ynghylch diwallu argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal am Wasanaethau a Ddarperir i Bobl Ifanc Anabl (Ionawr 2007). Mae'r ail adroddiad cynnydd, sydd ynghlwm, unwaith eto wedi cael ei osod yng nghyd-destun ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu cyfle cyfartal i holl bobl Cymru drwy sicrhau bod focws y gwaith o lunio polisïau a darparu gwasanaethau yn gadarn ar anghenion unigolion.

Byddwn hefyd yn eich cyfeirio at y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 16 Mai 2008, am y cynnydd a wnaethpwyd ynghylch rhoi sylw i'r materion a godwyd gan yr Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru. Mae'r materion hyn yn ymwneud â gwella cyfleoedd bywyd a chyfle cyfartal ein plant a'n pobl ifanc anable. Rwyf wedi sefydlu Grwp Gorchwyl sy'n cynnwys cynrychiolwyr yr ymgyrch ac uwch swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynghori Gweinidogion ar y blaenoriaethau ar gyfer ariannu a darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc anabl, a'u teuluoedd. Yn ogystal â'n helpu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru, dylid nodi y bydd y Grwp Gorchwyl hefyd yn gwneud gwaith pwysig o ran rhoi cyngor ar gyflawni amcanion eraill fel y camau allweddol ynghylch plant a phobl ifanc anabl yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Mamolaeth, ac wrth weithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar y Gwasanaethau a Ddarperir i Bobl Ifanc Anabl.

### Argymhellion Cyffredinol

Eleni bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Unigol, a fydd yn cwmpasu'r cynlluniau cyfredol ar gyfer anabledd, rhyw a hil ac yn adeiladu ar y rhain drwy hefyd roi sylw i oedran, crefydd a chred a chyfeiriadedd rhywiol. Ar hyn o bryd rydym ar ganol ymgynghori ar y fframwaith a'r blaenoriaethau ac rwyf yn awyddus iawn i gael sylwadau i sicrhau ein bod yn llunio ein cynllun a'n cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r materion hynny sy'n peri pryder i bobl Cymru, gan ganolbwyntio'n arbennig ar feysydd gwaith y mae'n rhaid i ni eu cysylltu er mwyn cael y canlyniadau gorau ar gyfer pobl ifanc anabl.

Rydym yn parhau i symud ymlaen o ran diwallu argymhellion yr adolygiad polisi hwn. Yng nghyswllt mater pwysig cyfranogiad ystyrlon pobl ifanc rydym nawr wedi cyhoeddi arweiniad ar gyfer ei ddefnyddio'n fewnol ar gyfer cynnwys plant a phobl ifanc wrth ddatblygu ein polisïau ein hunain sy'n effeithio ar eu bywydau. Gofynnwyd i swyddogion cyswllt is-adrannol ar draws meysydd polisi gydlynu a chefnogi arfer effeithiol o ran cynnwys plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau ar y materion hyn. Fel y gwyddoch yn barod, mae arweiniad ar gael i swyddogion ar y Fewnrwyd a bydd cyrsiau hyfforddi ar gael erbyn hydref 2008. Ar ben hynny, yn ddiweddar cyhoeddodd Gonsortiwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru gyfres o ganllawiau "Blast off" am arfer effeithiol ar gyfer gweithio mewn ffordd gyfranogol.

Mae'r Consortiwm Cyfranogiad a'r Uned Cyfranogiad yn Achub y Plant Cymru wedi datblygu cyfres o Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol. Mae'r rhain yn safonau ansawdd y gellir eu defnyddio i bennu meincnodau a darparu ffyrdd ar gyfer arolygu ac asesu arfer cyfranogol. Ar hyn o bryd mae'r Safonau Cenedlaethol yn cael eu treialu gyda grwpiau gwahanol o blant a phobl ifanc er mwyn archwilio sut y gellir mesur, casglu tystiolaeth a gweithredu'r safonau'n llwyddiannus ledled Cymru. Yn ddiweddar mae meysydd yn yr Is-adran Cyfleoedd Dysgu Ieuenctid ac Oedolion wedi cael eu harolygu gan bobl ifanc drwy eu cymharu â'r safonau hyn er mwyn cyflawni'r nod barcud. Ein bwriad yw cyflwyno'r broses hon gyda chymorth y Swyddogion Cyswllt Is-adrannol er mwyn i'r holl feysydd polisi perthnasol allu cyflawni'r gofyniad safon sylfaenol ar gyfer cynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Cyhoeddwyd arweiniad Strategaeth Cyfranogiad Lleol ym mis Awst 2007 ac mae hefyd ar gael ar CD ac mewn fersiynau sy'n addas ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae'r Arweiniad hwn wedi cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy weithio ar y cyd ag ystod o sefydliadau partner cenedlaethol a lleol a gyda phlant a phobl ifanc, mewn ymateb uniongyrchol i bryderon a fynegwyd gan bobl ifanc o'r Ddraig Ffynci. Mae'n rhan allweddol o'r seilwaith a gynlluniwyd i gefnogi a datblygu cyfranogiad plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Nod yr arweiniad, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2008, yw sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed yn cael cyfleoedd i gyfrannu a chael dweud eu dweud yng nghyswllt penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio arnynt ar lefel leol. Mae'n cefnogi arweiniad ar Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc statudol "Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau", a gyhoeddwyd ym mis Medi 2007. Ar hyn o bryd mae awdurdodau lleol yn ymgynghori ar Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc drafft sy'n berthnasol i 2008-2011 ac sydd i gael eu cymeradwyo gan awdurdodau lleol erbyn 31 Gorffennaf 2008, a'u cyhoeddi erbyn 30 Medi 2008.

Mae Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc yn gynlluniau pwerus ac oherwydd mai'r rhain fydd y cynlluniau strategol sengl ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc yn lleol rhaid i bob cynllun arall eu hystyried. Mae'r arweiniad yn mynnu bod awdurdodau lleol a'u partneriaid yn rhoi mwy o sylw i'r rheini y mae ei angen arnynt os ydynt am gyflawni eu potensial llawn, hynny yw ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ar y cyrion, sydd ag anghenion penodol neu sy'n ei chael hi'n anodd cyrraedd gwasanaethau. Mae hyn yn rhoi cyfle pwysig i sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn rhannu cyfrifoldeb, yn cyfeirio eu hadnoddau'n effeithiol tuag at ddiwallu angen ac yn rhoi blaenoriaeth briodol i'r rheini sy'n agored i niwed.

Mae canllawiau cynllunio yn rhoi pwys sylweddol ar bwysigrwydd Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn cynnwys plant a phobl ifanc a'u teuluoedd mewn cynllunio drwy gyfranogiad effeithiol, yng ngwaith datblygu, monitro ac adolygu gwasanaethau sy'n effeithio arnynt. Caiff hyn ei gefnogi yn y broses adrodd – mae paragraff 8.6 yr arweiniad yn nodi "Dylid cyhoeddi rhestr o'r materion a godir gan blant a phobl ifanc a theuluoedd wrth ddatblygu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc a'r ffordd y mae'r Cynllun yn rhoi sylw iddynt yn electronig fel dogfennau ategol. "

### Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth

Fel y byddwch yn ei gofio mae Grwp Cyfeirio Strategol Allanol Pontio (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Pobl Ifanc ag anawsterau dysgu, Addysg, Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithas, Addysg Bellach ac Uwch, sefydliadau cyflogwyr yn ogystal â Gyrfa Cymru a Sgiliau Cymru) wedi cael ei sefydlu ym mis Hydref 2007 i ystyried sut y gallem symud ymlaen gydag argymhellion yr adolygiad hwn ac adolygiad Rhan 3 AAA a gynhaliwyd gan y cyn Bwyllgor Addysg Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am bontio. Mae'r grwp yn mynd rhagddo'n raddol a bydd yn cwrdd bob chwe wythnos. Mae pedwar is-grwp o'r prif Grwp wedi cael eu ffurfio bellach sy'n ystyried agweddau allweddol ym meysydd:

Cyflogaeth a Sgiliau,

Addysg a Hyfforddiant (gan gynnwys cyllid a throsglwyddo data),

Cynllunio ar gyfer y cyfnod pontio

Gwaith allweddol

Mae cynlluniau gweithredu drafft ar waith ar gyfer pob grwp sydd, yn benodol yn rhoi sylw i argymhellion y naill Bwyllgor a'r llall. Mae'r cynlluniau gweithredu'n cynnwys canlyniadau allweddol i wella darpariaeth gwasanaeth a chânt eu hystyried yn fanwl yng nghyfarfod nesaf y prif grwp a gynhelir ym mis Mehefin 2008.

Mae Arweiniad Cynllunio ar gyfer y Cyfnod Pontio i'w ddefnyddio gan ysgolion, awdurdodau addysg lleol ac asiantaethau eraill wrthi'n cael ei ystyried gan yr is-grwp cynllunio ar gyfer y cyfnod pontio sydd ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar sicrhau bod pobl ifanc yn cael pob cyfle i fynegi eu safbwyntiau fel rhan o'r broses hon ac, yn anad dim, sicrhau y gwrandewir ar eu sylwadau ac y gweithredir arnynt. Mae hyn wedi golygu oedi cyn cyhoeddi unrhyw adroddiad ymgynghori. Fodd bynnag, rwyf yn credu'n gryf bod y gwaith hwn yn hanfodol os ydym yn darparu arweiniad i ddarparwyr gwasanaeth sy'n addas i'r diben ac sydd â'r berchnogaeth ehangaf bosibl. Mae'n debygol y caiff dogfen ymgynghori ddrafft ei chyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn.

Ym mis Tachwedd 2008, cyhoeddais gyllid cychwynnol o £500,000 i ddarparu gweithwyr cyfnod pontio allweddol ychwanegol a fyddai ar waith ledled Cymru. Gallaf gadarnhau y bydd y cyllid hwn yn parhau ar sail flynyddol dros y tair blynedd nesaf hyd at 2011/2012. Ar ben hynny, rwyf wedi darparu £201,000 o gyllid dros y tair blynedd nesaf i Care Co-ordination Network UK a fydd yn cydlynu'r gwaith hwn ar lefel Genedlaethol i sicrhau dull gweithredu cyson ac i rannu'r arfer gorau.

Mae gwybodaeth wahaniaethol ar gyfer defnyddwyr ag anawsterau dysgu nawr ar gael i'w chynnwys wrth i Gyrfa Cymru ail-lansio'r wefan ym mis Awst 2008. Caiff hon ei rhoi mewn adran ar wahân o'r safle o'r enw 'Fy Nyfodol'. Bydd yn cynnwys:

Hunan ymwybyddiaeth

Dewisiadau ar ôl 16

Materion sy'n ymwneud â byw'n annibynnol

Chwilio am waith

Pobl sy'n gallu darparu cefnogaeth

Gwneud penderfyniadau a chynllunio ar gyfer y cyfnod pontio

Yn ychwanegol at y wybodaeth wahaniaethol ceir amrywiaeth o weithgareddau rhyngweithiol sy'n rhoi sylw i sgiliau byw'n annibynnol, gwneud penderfyniadau a chynllunio ar gyfer y cyfnod pontio.

Ar ôl iddynt gael gafael ar y wybodaeth, bydd defnyddwyr yn gallu cofnodi eu manylion a'u cynlluniau eu hunain yn "Fy Safle", e-bortffolio y gellir ei gyhoeddi fel dogfen neu wefan. Bydd defnyddwyr yn gallu llwytho tesun, lluniau a fideos i fyny. Rhagwelir y bydd hyn yn helpu defnyddwyr i gyfrannu'n llawnach at y broses cynllunio ar gyfer y cyfnod pontio a'u galluogi i gyflwyno gwybodaeth i ddarparwyr yn y dyfodol mewn fformat o'u dewis. Bydd yr holl wybodaeth a'r gweithgareddau yn yr adran hon ar gael yn ddwyieithog.

Mae'r Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol diwygiedig bellach wedi cael ei gyhoeddi a chaiff ei weithredu o fis Medi 2008 ymlaen. Caiff ei gefnogi gan wefan arbennig sydd hefyd wedi cael ei lansio nawr.

Bydd nifer o'r argymhellion yn y Cynllun Gwella Dysgu Seiliedig ar Waith yn cael eu treialu a'u gwerthuso cyn cyflwyno'n genedlaethol yn 2010. Fel rhan o'r cynlluniau peilot hyn sefydlir rhwydweithiau dysgu cyflogadwyedd erbyn mis Ionawr 2008 ar draws dwy ardal ddaearyddol yng Nghymru. Caiff un cynllun peilot ei gynnal yn sir Benfro a sir Gaerfyrddin (y cynllun peilot gwledig) a chaiff yr ail ei gynnal yn Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot (y cynllun peilot trefol). Nod y naill rwydwaith a'r llall yw gwella ansawdd ac ymatebolrwydd y ddarpariaeth i ddiwallu galw'r farchnad lafur.

Bydd y rhwydweithiau peilot hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o ddarparwyr lleol a'r asiantaethau cyfeirio a chefnogi lleol. Y canlyniad a ddisgwylir o'r rhwydweithiau yw ymgysylltiad gwell gyda grwpiau difreintiedig drwy wella'r broses cyfeirio. Gobeithir hefyd, drwy waith partneriaeth, y bydd y rhwydweithiau hyn mewn sefyllfa well i allu ymgysylltu a chefnogi anghenion yr holl ddysgwyr sy'n ymuno â lefel mynediad rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith. Caiff cysylltiadau gwell eu llunio hefyd gyda rhaglenni lleol eraill megis y Fargen Newydd a'r rhaglen Porth Gyrfaoedd i sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael i wasanaethu anghenion lleol.

Rydym hefyd wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith sy'n monitro cyfleoedd mynediad pobl ifanc anabl at hyfforddiant a chyflogaeth drwy eu Gwasanaeth Ymgynghorol ar Anabledd a rhaglenni'r Fargen Newydd, yn enwedig y Fargen Newydd ar gyfer Pobl Anabl. Rydym wedi gweithio'n arbennig o agos gyda nhw wrth ddatblygu, dylunio a darparu'r rhaglen Llwybrau at Waith a'r rhaglen Yn Awyddus i Weithio ar y cyd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru/Canolfan Byd Gwaith. Mae'r naill a'r llall yn cynnig cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer pobl ifanc anabl.

Hyd at ddiwedd mis Medi 2007, mae Yn Awyddus i Weithio wedi helpu dros 1500 o bobl i waith ac roedd 50% o'r rheini wedi datgan bod ganddynt anabledd. Roedd 400 o'r rheini a oedd ag anabledd dan 25 oed.

## Trafnidiaeth

Fel y dywedais yn fy ymateb i'r Pwyllgor, Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y ddeddfwriaeth gyfredol sy'n llywodraethu mynediad pobl anabl at drafnidiaeth gyhoeddus. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi parhau â'r deialog gyda Llywodraeth y DU i gefnogi gweithredu'r Cod Statudol. Ceir ymrwymiad i ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus hygyrch ar gyfer pawb mewn cymdeithas. Mae'r Cod Statudol yn rhoi arweiniad cyffredinol ac arfer da i weithredwyr bysiau a threnau ar wneud cerbydau'n fwy hygyrch i bobl anabl. Y gweithredwyr, nid Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n gyfrifol am gydymffurfio.

## Byw'n Annibynnol

Mae'r Arweiniad ar gyfer Paratoi Strategaethau Tai Lleol 2007 yn nodi y dylai awdurdodau lleol asesu gofynion tai pobl anabl fel rhan o ddatblygiad eu strategaeth dai leol. Mae strategaethau tai lleol bellach wedi cael eu cwblhau ac mae adolygiad cychwynnol wedi cael ei gynnal gan Gyfarwyddiaeth Dai Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu bod nifer nad ydynt yn diwallu'r holl ofynion a amlygwyd yn yr arweiniad ac mae diwygiadau'n dal yn cael eu gwneud cyn i'r awdurdodau eu mabwysiadu. Bydd ein Cyfarwyddiaeth Dai wedyn mewn sefyllfa i lunio casgliadau Cymru gyfan ar agweddau penodol ar y strategaethau tai lleol, gan gynnwys cynlluniau a darpariaeth awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau tai i bobl anabl.

Caiff yr holl eiddo a adeiladir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru eu datblygu at safonau 'Cartref Gydol Oes'. Mae'r rhain yn darparu mynediad priodol a drysau llydan, yn ogystal â switshis/plygiau ayb ar uchder sydd o fewn cyrraedd hawdd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Maent hefyd yn haws eu haddasu ar gyfer anableddau penodol a daw'r cyllid ar gyfer yr addasiadau hyn gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r cyllid ar gyfer addasiadau wedi codi'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gyda chefnogaeth ar gyfer addasiadau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi dyblu i bron i £4m y flwyddyn. Cafodd yr holl geisiadau gan awdurdodau lleol ar gyfer cyllid grant tai cymdeithasol i gefnogi datblygu llety adeiladau newydd penodol ar gyfer teuluoedd gydag aelod anabl eu diwallu'n llawn yn y dyraniadau diweddar a gyhoeddwyd ar gyfer 2009/2010.

## Materion Eraill

Rwyf eisoes wedi sôn yn fyr am y Grwp Gorchwyl, sy'n cynnwys cynrychiolwyr Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru ac uwch swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, hoffwn bwysleisio pa mor bwysig fydd y grwp hwn o ran rhoi cyngor i'n helpu i gyflawni amcanion Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru, ac o ran mynd i'r afael â materion sydd wedi codi yn sgil polisïau ac adroddiadau eraill, gan gynnwys y rheini a amlygwyd yn adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar y Gwasanaethau a Ddarperir i Bobl Ifanc Anabl (Ionawr 2007).

Mae'r Grwp Gorchwyl wedi cael ei sefydlu i bara hyd y Cynulliad presennol. Mae wedi cwrdd dair gwaith hyd yn hyn ac rwyf wedi cytuno cwrdd â chynrychiolwyr yr ymgyrch cyn pob cyfarfod o'r Grwp Gorchwyl i adolygu'r cynnydd a chytuno ar flaenoriaethau ar gyfer camau i'w cymryd yn y dyfodol. Byddaf yn rhoi adroddiad llawn o'r cynnydd mewn papur i Bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc ym mis Mehefin.

Drwy'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Plant, mae Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a'r sefydliadau cyfrifol wedi dechrau, pan fo'n briodol, cydlynu a chydgyfnerthu gwaith blaenoriaeth aml-asiantaeth ynghylch gwella'r gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc.

Mae'n rhaid i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc ystyried canfyddiadau eu hunanasesiad Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol lleol wrth bennu eu blaenoriaethau gwario ar gyfer eu Cynllun Plant y mae'n rhaid ei gyhoeddi'r flwyddyn nesaf. Nodwyd bod gwasanaethau ar gyfer plant anabl yn wendid ac rwyf yn disgwyl i'r Partneriaethau fynd i'r afael â hwy.

Gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yw sicrhau bod pob plentyn yn gallu cael gafael ar wasanaethau eirioli. Ym mis Mawrth 2008 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei chynlluniau i gyflwyno fframwaith Gwasanaeth newydd ar gyfer eiriolaeth plant a phobl ifanc. Bydd y fframwaith yn cynnwys ymestyn mynediad at eiriolaeth drwy sefydlu llinell eiriolaeth a chyngor genedlaethol ar gyfer

yr holl blant a phobl ifanc o 2009 ymlaen. Ar ben hynny, o 2009 ymlaen bydd y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn comisiynu gwasanaethau eiriolaeth integredig arbenigol, ar draws iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Bydd y rhain yn darparu siop un stop ar gyfer cefnogaeth eiriolaeth, gyda ffocws penodol ar ddarparu eiriolaeth statudol a chefnogaeth ehangach i helpu plant a phobl ifanc agored i niwed sy'n dymuno codi pryder neu gwyno. Bydd plant a phobl ifanc anabl yn gallu cael gafael ar gefnogaeth gan y gwasanaethau hyn.

Cafodd yr Arweiniad Lleoliadau Hygyrch ei lansio ym mis Gorffennaf 2006. Mae Llywodraeth y Cynulliad nawr wedi dechrau cam dau'r prosiect lleoliadau hygyrch. Drwy weithio mewn ymgynghoriad â phartneriaid gan gynnwys Grwp Cyfeirio Anabledd Cymru, Anabledd Cymru, y Comisiwn Hawliau Anabledd, RNIB Cymru a Chyngor Cymru i'r Deillion, byddwn yn cefnogi darparu cronfa ddata o leoliadau hygyrch yng Nghymru yn ystod 2008.

Byddwn hefyd yn datblygu dewisiadau ar gyfer cynllun gwobrwyo cenedlaethol a fydd yn cydnabod lleoliadau sy'n mynd yr ail filltir drwy ddangos yr arfer gorau o ran darparu cyfleusterau hygyrch a gwasanaeth gwych i gwsmeriaid anabl. Bydd gwaith yn ystod 2008 yn cynnwys cysylltu llwybrau trafnidiaeth hygyrch â lleoliadau ac archwilio dewisiadau ar gyfer cynllun gwobrwyo sy'n cydnabod rhagoriaeth wrth hyrwyddo cydraddoldeb anabledd.

Ar ben hynny, byddwch yn cofio i mi ly gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2007 £225,000 o gyllid ar gyfer 2 le newid symudol i'w defnyddio mewn digwyddiadau mawr, a 5 o addasiadau mewn lleoliadau diwylliannol mawr ledled Cymru. Rhagwelir y bydd y cyfleusterau hyn ar gael erbyn 2009.

Cyhoeddwyd yr arweiniad terfynol ar Ddatganiadau Hygyrchedd ym mis Tachwedd 2007. Ar ben hynny, mae fy nghyd-Weinidog Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, y mis yma wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori ar ddiwygiadau i bolisi cynllunio Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio sy'n annog cynnwys cyfleusterau toiled 'Mannau Newid' hygyrch mewn cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd a masnachol cyhoeddus.

## Casgliad

Mae'r cynnydd sydd wedi cael ei gyflawni hyd yn hyn, ynghyd â'r gwaith rydym yn ei wneud drwy'r Grwp Gorchwyl gyda'r Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri, yn dangos ein hymrwymiad parhaus i wella'r gwasanaethau a ddarperir i bobl ifanc anabl. Rwyf yn ffyddiog y gallwn wneud y newidiadau angenrheidiol a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar ddarparu gwasanaethau gwell i bobl anabl ifanc. Unwaith eto, carwn ddiolch i'r Comisiwn Cyfle Cyfartal am ei waith sydd wedi ein galluogi i ganolbwyntio ar y maes gweithgarwch pwysig hwn.